




Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru Cam 2, Mehefin 2019 – Crynodeb

Beth yw'r Baromedr Twristiaeth?

Mae Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru'n rhoi adborth cyflym ar sut mae'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru yn perfformio ar gyfnodau allweddol yn ystod y flwyddyn. Mae'r cam ymchwil hwn yn ymwneud â gwyliau hanner tymor Mai/Mehefin.

Mae cwmni Strategic Research and Insight, asiantaeth ymchwil annibynnol o Gaerdydd, wedi cyflawni 827 cyfweiliad teleffon gyda busnesau twristiaeth yn y sectorau canlynol: llety â gwasanaeth, hunandarpar, safleoedd carafanau a gwerysyla, atyniadau, darparwyr gweithgareddau a bwytai, tafarnau a chaffis.




Cyfnod cyson ar gyfer y diwydiant

Mae'r rhan fwyaf (83%) o fusnesau wedi cynyddu neu gynnal eu lefelau ymwelwyr yn ystod hanner tymor Mai/Mehefin. Ymysg y rheiny a nododd gynnydd mewn ymwelwyr, roedd traean (32%) yn nodi'r tywydd fel rheswm. Fodd bynnag, mae'r tywydd hefyd yn cael ei nodi fel ffactor allweddol o ran perfformiad ymysg y traean a nododd lai o ymwelwyr.

Mae busnes dychwel wedi dod â sefydlogrwydd i'r diwydiant yn ystod y cyfnod hwn. Mae tri o bob deg (30%) o'r rheiny sydd wedi gweld cynnydd mewn ymwelwyr yn nodi hyn fel ffactor allweddol.

Delwedd gyson ar draws pedwar rhanbarth Cymru


Yn gyffredinol, mae perfformiad y diwydiant yn cael ei adlewyrchu ar draws pedwar rhanbarth Cymru (Gogledd, Canolbarth, De-orllewin, De-ddwyrain). Ym mhob rhanbarth, mae mwyafrif y busnesau'n adrodd yr un lefel o ymwelwyr â'r un cyfnod y llynedd.



Bwytaï / tafarndai / caffis yn elwa ar eu marchnata eu hunain

Bwytaï, tafarndai a chaffis mewn ardaloedd sydd â nifer fawr o dwristiaid yw'r sector sy'n perfformio orau, gyda thua dau allan o bump (39%) yn gwasanaethu mwy o gwsmeriaid sy'n dwristiaid na'r un cyfnod y llynedd. Mae tua thraean (31%) o'r rhain yn priodoli'r cynnydd mewn cwsmeriaid i'w marchnata eu hunain.

Y sector hunanarlwyo sydd wedi cael yr her fwyaf o ran cynyddu lefelau ymwelwyr. Y rheswm mwyaf cyffredin am weld nifer yr ymwelwyr yn gostwng yn y sector hwn yw 'ansicrwydd ynglŷn â Brexit', gan fod hyn wedi effeithio ar archebion ymlaen llaw.



Disgwyliadau am amseroedd gwell i ddod

Yn dilyn cyfnod cyson, mae busnesau ym mhob sector yn hyderus am dymor yr haf sydd ar ddod. Cyhoeddir adroddiad llawnach ar y cam ymchwil hwn yn hwyrach ym mis Mehefin.

Adroddiad ymchwil llawn: Lydall, A. (2019). Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru – Cam 2, Mehefin 2019.

Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR adroddiad rhif 26/2019

Ar gael yn: <https://llyw.cymru/baromedr-twristiaeth-cam-2-2019>

Mae'r safbwyntiau a fynegwyd yn yr adroddiad hwn yn perthyn i'r ymchwilwyr ac nid o reidrwydd Llywodraeth Cymru

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â:

Tîm Ymchwil a Mewnwelediad

Croeso Cymru

Grŵp Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol

Canolfan QED, Ystad Trefforest

Pontypridd, Rhondda Cynon Taf

CF37 5YR

E-bost: ymchwiltwristiaeth@llyw.cymru

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN digidol 978-1-83876-512-5